MC
MATERION
CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

MAI 2017. Rhifyn 10.

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

CYNGOR NEWYDD WEDI EI ETHOL

Mae'r blaid Lafur wedi cadw ei rheolaeth dros Gyngor Dinas Casnewydd yn sgil yr etholiadau llywodraeth leol a gafodd eu cynnal ar 4 Mai.

Aeth pobl Casnewydd ati i ethol y 50 o gynghorwyr fydd yn eu cynrychioli mewn 20 o wardiau.

Digwyddodd y cyfrif yn Velodrome Cenedlaethol Cymru dros nos ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn - Llafur 31 sedd, Ceidwadwyr 12, Plaid Annibynnol Casnewydd 4, Democratiaid Rhyddfrydol 2 ac Annibynnol 1.

Bydd pobl sy'n byw yng Nghasnewydd, a phobl gweddill y DU, yn pleidleisio eto ymhen mis. Dros aelod i senedd y DU y bydd pobl yn pleidleisio y tro hwnnw.

Bydd yr etholiad cyffredinol ar 8 Mehefin. Mae gan y ddinas ddau Aelod Seneddol, y naill yn cynrychioli Gorllewin Casnewydd a'r llall yn cynrychioli Dwyrain Casnewydd.

I weld holl ganlyniadau etholiadau'r cyngor sir ac i ddarllen mwy am yr etholiad cyffredinol, ewch i **www.newport.gov.uk/elections**

Bydd gwybodaeth ynghylch yr etholiad cyffredinol hefyd yn ymddangos ar gyfrifon cyfyrngau cymdeithasol Cyngor Dinas Casnewydd yn ystod y cyfnod cyn 8 Mehefin – Twitter **@NewportCouncil** a Facebook **www.facebook.com/NewportCityCouncil**

CYNNIG UCHELGEISIOL I AILWAMPIO'R BONT GLUDO



Gwella profiad ymwelwyr o Bont Gludo eiconig Casnewydd yw un o brif flaenoriaethau Cyngor Dinas Casnewydd.

Mae'r cyngor yn cefnogi cynnig uchelgeisiol i sicrhau dyfodol y bont drwy wneud cais am tua £8 miliwn o gymorth o Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Caiff yr arian ei ddefnyddio i ariannu rhaglen hirdymor o welliannau, gwaith cynnal a chadw a gwaith trwsio sydd ei angen er mwyn ei chadw yn ei chyflwr gweithredol gwreiddiol.

Mae Ffrindiau Pont Gludo Casnewydd yn cefnogi cynlluniau'r cyngor ac maent wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ar sut gall y prosiect ddatblygu.

Maent yn gobeithio ymestyn yr oriau agor, creu mwy o leoedd parcio ac efallai agor caffi i ymwelwyr a fyddai'n gweld hyd yn oed mwy o bobl yn ymweld na'r 20,000 y mae'n eu denu bob blwyddyn.

Mae angen cymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri er mwyn gwneud gwaith trwsio parhaus hanfodol i'r bont, gwella'r gondola Edwardaidd, sy'n dyddio o 1906, a chreu canolfan fwy a gwell i ymwelwyr a fydd yn cynnwys cyfleusterau gwell ar y safle.

Agorodd Pont Gludo Casnewydd yn 1906 a chafodd ei hadeiladu er mwyn helpu gweithwyr dur a oedd yn byw ar ochr Pillgwenlli o afon Wysg i gyrraedd y ffatri Lysaght ar yr ochr arall, gan arbed iddynt gerdded pedair milltir i'r gwaith.

Mae'r bont yn dominyddu nenlinell y ddinas ac mae'n un o ddim ond pum pont gludo sy'n parhau i weithredu yn y byd.

Mae gwaith cynnal a chadw a thrwsio sylweddol i'r bont wedi bod yn mynd rhagddo dros y blynyddoedd; ac yn fwyaf diweddar, gosodwyd rheiliau newydd i deithwyr a gwnaed gwaith ailbaentio cynhwysfawr yn 2010.

Mae adroddiad ar gais y Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn nodi er mwyn i'r Bont Gludo ffynnu fel atyniad i ymwelwyr yna mae angen buddsoddi hefyd mewn deunydd dehongli a chyfleusterau i ymwelwyr.

Mae'r broses ffurfiol o sicrhau'r cyllid wedi dechrau a bydd cyfle i drigolion gymryd rhan a helpu i godi arian ar gyfer y gwaith. Mae'r math hwn o gynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned yn bwysig ar gyfer ceisiadau cyllid sy'n denu cymorth trydydd sector.

Mae'r bont, sydd wedi ennill Tystysgrif Rhagoriaeth ar Trip Advisor sawl gwaith, ar agor o ddydd Mercher i ddydd Sul ac ar bob gŵyl y banc rhwng 10am a 5pm tan 1 Hydref.

MAER NEWYDD YN DECHRAU EI SWYDD

▶ *Ffotograff: Peter Ellis*

Daeth y Cynghorydd David Fouweather yn ddinesydd cyntaf diweddaraf Casnewydd ar Mai 16 a daeth Paula Fouweather yn Faeres.

Gwnaethant gymryd drosodd gan Faer y llynedd, y Cynghorydd David Atwell a'r Faeres Carole Atwell.

Ceir rhagor o fanylion am y Maer newydd a'r elusennau a ddewiswyd ganddo ar gyfer y flwyddyn - Hosbis St David's, Amazing Grace Spaces ac MPTC yn rhifyn Gorffennaf o Newport Matters.

Y cynghorydd Richard White a Pamela White yw'r Dirprwy Faer a Dirprwy Faeres newydd.

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol y cyngor yn dilyn seremoni'r Maer lle cadarnhawyd y cabinet newydd a phenodiadau i bwyllgorau'r cyngor a chyrff allanol.

Cynhelir gwasanaeth Dydd Sul Dinesig a Lluoedd Arfog y Maer yn Eglwys Gadeiriol Casnewydd am 10.30am ar 18 Mehefin.

RAS GYFNEWID BATON Y FRENHINES

Bydd Casnewydd yn croesawu Baton y Frenhines wrth iddo ymweld â chymunedau ledled y DU fel rhan o'r dathliadau yn arwain at seremoni agoriadol Gemau'r Gymanwlad Y Traeth Aur 2018.

Bydd Baton y Frenhinesyng Nghasnewydd ddydd Mercher 6 Medi 2017.

Y FELOTHON YN DYCHWELYD I GASNEWYDD

Disgwylir i filoedd o feicwyr gymryd rhan yn Velothon Cymru eleni ddydd Sul 9 Gorffennaf, gan deithio ar hyd rhai o'r ffyrdd mwyaf prydferth a heriol o amgylch De Cymru.

Yn newydd ar gyfer 2017 gellir dewis cwrs 110km neu 140km a fydd yn mynd ar hyd rhan o ffyrdd arfordirol Casnewydd a'r Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol.

O feicwyr profiadol i bobl sy'n codi arian at elusen a phobl sy'n newydd i feicio, bydd y llwybrau yn cynnig profiad bythgofiadwy i gyd-fynd â phob uchelgais a gallu.

Yn ogystal â'r digwyddiad beicio, mae Velothon Cymru hefyd yn croesawu ras broffesiynol a awdurdodir gan yr Undeb Beicio Rhyngwladol, gan ddenu rhai o dimau a beicwyr gorau'r byd.

Er mwyn i'r digwyddiad gael ei gynnal yn ddiogel, bydd rhai ffyrdd yn cael eu cau yng Nghasnewydd felly cynghorir trigolion y gall teithio personol gael ei gyfyngu mewn rhai rhannau o'r ddinas. Gall beicwyr, trigolion a busnesau fynd i www.velothon.com/wales i weld y manylion llawn ynglŷn â chau ffyrdd.

Gwneir pob ymdrech i amharu cyn lleied â phosibl ar y diwrnod. Caiff rhagor o wybodaeth am unrhyw newidiadau i wasanaethau lleol ei chyhoeddi ar wefan y cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol wrth i'r digwyddiad agosáu.

Am ragor o wybodaeth gweler
www.velothon.com/wales
Facebook: @VelothonUK
Twitter: @Velothon
Ebost: velothonwales@ironman.com

CYFLE ARALL I GERDDED CASNEWYDD

Bydd digwyddiad cerdded blynyddol Casnewydd yn dychwelyd ddydd Sadwrn 9 Medi a gallwch gofrestru ar-lein nawr.

Hyd yn oed gydag amodau tywydd heriol i ymdrechu yn eu herbyn, cymerodd dros 100 o bobl ran yn y digwyddiad Cerdded Casnewydd cyntaf y llynedd, a'r gobaith yw y bydd eleni hyd yn oed yn fwy ac yn well.

Bydd cyfres o deithiau cerdded gan gynnwys teithiau byr sy'n addas i deuluoedd â phlant iau a theithiau hirach ar gyfer y rheini sy'n chwilio am fwy o her yn amrywio o 1.5 i 16 milltir. Bydd pob taith gerdded yn dechrau ac yn gorffen yn y Ganolfan Byw'n Weithgar ym Metws unwaith eto, a byddant yn mynd drwy ardaloedd trawiadol sy'n galluogi cerddwyr i fwynhau cefn gwlad amrywiol Casnewydd.

Dywedodd un cerddwr y llynedd: *"Nid oeddwn wedi sylweddoli fainto olygfeydd gwych sydd mor agos i'r dref" a dywedodd cerddwr arall ei fod wedi mwynhau "darganfod rhannau o Gasnewydd nad oeddem yn gwybod eu bod yn bodoli".*

Mae Cyngor Dinas Casnewydd a Casnewydd Fyw yn gweithio gyda Dewch i Gerdded Cymru, grwpiau cerdded, gwirfoddolwyr a sefydliadau partneriaeth i sicrhau y bydd Cerdded Casnewydd 2017 yn llwyddiant mawr.

Bydd digwyddiad eleni yn cefnogi elusen y Gymdeithas Alzheimer.

I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru ewch i
www.newport.gov.uk/walktheport

TAGFEYDD GÊM DERFYNOL CYNGHRAIR Y PENCAMPWYR – CYNLLUNIWCH YMLAEN LLAW

Lleoliad gêm derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA 2017, ddydd Sadwrn 3 Mehefin 2017, yw Stadiwm Principality yng Nghaerdydd – Stadiwm Cenedlaethol Cymru.

Hwn fydd y digwyddiad chwaraeon mwyaf yn y byd eleni, yn denu cefnogwyr o bob rhan o'r byd a bydd mwy yn ei wylio ar y teledu nag unrhyw raglen arall.

Cynhelir Gŵyl Pencampwyr UEFA hefyd rhwng 1 - 4 Mehefin ym Mae Caerdydd a disgwylir iddi ddenu dros 200,000 o bobl dros y pedwar diwrnod.

Bydd angen cau mwy o ffyrdd am fwy o amser o amgylch dinas Caerdydd nag ar gyfer digwyddiadau chwaraeon eraill ac efallai y bydd mesurau diogelwch yn gofyn am gau lonydd ar rai llwybrau yng nghanol y ddinas.

O ganlyniad i hynny, bydd Caerdydd a'r trefi a'r dinasoedd cyfagos yn llawer prysurach yn ystod wythnos y digwyddiad ac yn enwedig ar ddiwrnod gêm derfynol y dynion.

Mae trefnwyr y digwyddiad wedi nodi ble a phryd maent yn rhagweld bydd y mannau prysuraf. Disgwylir i'r M4, M48, A48 a A449 fod yn arbennig o brysur, yn enwedig cyn ac ar ôl gêm derfynol y dynion sy'n dechrau am 7.45pm.

Effeithir ar wasanaethau trên a bws a disgwylir i feysydd awyr fod yn brysur hefyd.

Awgrymir y dylai preswylwyr Casnewydd roi dydd Sadwrn 3 Mehefin yn eu dyddiadur a meddwl am eu cynlluniau a'u trefniadau teithio. Mae'n debygol y bydd teithiau lleol hyd yn oed yn cymryd mwy o amser, gyda theithiau tua'r gorllewin i Gaerdydd a thu hwnt yn destun oedi.

I gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau, y gwasanaethau yr effeithir arnynt a'r ardaloedd prysuraf ewch i **www.Cardiff2017.Wales**

UEFA CHAMPIONS LEAGUE

PRYNU GYDA HYDER

Mae safonau masnach Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymuno â'r cynllun Prynu gyda Hyder cenedlaethol sy'n rhoi 'cymeradwyaeth' safonau masnach i fusnesau y mae eu gwasanaethau yn cyrraedd safonau llym.

Mae angen geirdaon da gan gwsmeriaid blaenorol ac mae'n rhaid i ymgeiswyr gytuno i gydymffurfio â chod ymddygiad y cynllun, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddilyn llythyren ac ysbryd y ddeddf.

Pure Vans Ltd yw'r aelod cyntaf i ymuno â'r cynllun, wedi'i ddilyn yn agos gan Japonica, cwmni tirlunio o Dŷ-Du.

CADARNHAU DYDDIAD YR ŴYL FWYD A DIOD

Cynhelir Gŵyl Fwyd a Diod Tiny Rebel Casnewydd eleni ddydd Sadwrn 7 Hydref rhwng 9am i 5pm ar y Stryd Fawr.

Bydd dros 80 o stondinau yn gwerthu gwledd o'r cynnyrch gorau sydd gan Gymru a Gorllewin Lloegr i'w gynnig ac yn rhoi'r cyfle i ymwelwyr fwynhau bwyd a diodydd arbenigol.

Bydd canolbwynt yr ŵyl ar y Stryd Fawr, sy'n arwain at Farchnad hanesyddol dinas Casnewydd, y safle ar gyfer y cystadlaethau poblogaidd ar gyfer cogyddion yn eu harddegau ac arddangosiadau gan rai o gogyddion mwyaf blaenllaw'r wlad.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **www.newportfoodfestival.co.uk**

WI-FI CYFEILLGAR YNG NGHASNEWYDD

Mae rhwydwaith wi-fi cyhoeddus Casnewydd wedi cael achrediad gan gynllun a grëwyd ar y cyd â Chyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd.

Mae'r symbol WiFi Cyfeillgar yn helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i ddod o hyd i leoliadau lle mae WiFi wedi cael ei hidlo i geisio atal deunydd amhriodol.

CODI'R FANER AR GYFER NOSWEITHIAU ALLAN DIOGEL



Cytunwyd ar gynlluniau i godi proffil y ddinas, annog mwy o ymwelwyr a rhoi hwb i'r economi liw nos gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Caiff hyn ei gyflawni drwy wneud cais am statws Baner Borffor a rhoi polisi trwyddedu caffi palmant ar waith.

Mae ennill statws Baner Borffor yn dangos bod economi liw nos tref neu ddinas yn cynnig amgylchedd glân a diogel, bariau a chlybiau gwych, amrywiaeth o atyniadau celfyddydol a diwylliannol a chysylltiadau trafnidiaeth rhagorol.

Os yn llwyddiannus, bydd Casnewydd yn ymuno ag Abertawe i fod yn un o ddim ond dwy ddinas yng Nghymru sydd â'r wobr hon.

Mae gweithgor partneriaeth Baner Borffor wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys gwasanaethau cyngor allweddol, Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Bugeiliaid Stryd, yr Ardal Gwella Busnes, Pub Watch a Casnewydd Fyw.

Mae'r cyngor hefyd am annog a chefnogi caffis palmant oherwydd gallant helpu i wneud y defnydd gorau o fannau cyhoeddus, helpu'r economi leol ac ychwanegu at y cyfleusterau a gynigir i bobl sy'n ymweld â Chasnewydd ac sy'n byw ac yn gweithio yno.

YSGOL FUSNES DROS DRO YN "YSBRYDOLEDIG"

Ysbrydoledig, anhygoel a gwych - dyma rai o'r geiriau a ddefnyddiwyd gan y rheini a ddaeth i'r Ysgol Fusnes Dros Dro ddiweddar yng Nghasnewydd.

O'r bobl a gymerodd ran, roedd 39 y cant yn masnachu am y tro cyntaf o fewn pythefnos, a dechreuodd 37 o fusnesau o fewn pythefnos i'r ysgol.

Ar yr un pryd, bu Cyngor Dinas Casnewydd – ar y cyd â Norse Casnewydd – yn rhedeg cystadleuaeth i ddod o hyd i syniadau busnes gwych.

Y wobr gyntaf oedd stondin ym Marchnad Casnewydd am flwyddyn ac enillodd y rheini a ddaeth yn ail stondin am chwe mis. Fodd bynnag, gwnaeth pawb ar y rhestr fer gymaint o argraff ar y beirniaid, cawsant gynnig cymhellion ar gyfer eu busnesau.

Enillodd Cherish Clothing Boutique, sy'n cael ei redeg gan Catherine Farmer a Ffion Cox, y gystadleuaeth agos iawn a chawsant eu henwi'n enillwyr cyffredinol ar ôl rhoi eu cyflwyniad.

Mae'r ddwy ferch, a nododd yn eu cyflwyniad i'r gystadleuaeth eu bod yn 'angerddol dros ffasiwn', yn awyddus i ddenu cwsmeriaid iau i'r farchnad gyda'u syniad busnes.

Y rheini a ddaeth yn ail, a enillodd ddwy uned ddidrwydded am chwe mis, yw Jackie Tyler sydd am redeg stondin harddwch/therapi cyflenwol yn cynnig triniaethau gofal ewinedd, triniaethau wyneb, tyliniadau, aromatherapi ac adweitheg, a Pattarika Bankluay sydd am gynnig prydau parod Thai i gwsmeriaid.

Gwnaeth llawer o'r rheini a fu'n cystadlu hefyd gymryd rhan yn yr Ysgol Fusnes Dros Dro sef un o'r mentrau a gefnogwyd gan gronfa arbennig a sefydlwyd gan y cyngor y llynedd.

Dywedodd Alan Donegan, o'r Ysgol Fusnes Dros Dro:

"Roedd yn wych. Rydym wedi bod yn helpu pobl i weld nad oes angen arian arnoch i ddechrau busnes. Erbyn diwrnod tri, maent yn adeiladu eu gwefannau am ddim ac erbyn diwrnod pump maent yn gwerthu am y tro cyntaf – mae'n foment sy'n newid bywyd."

Bu Cyngor Dinas Casnewydd hefyd yn gweithio gyda Chartrefi Dinas Casnewydd, Busnes Cymru, Cymunedau yn Gyntaf, Newport Now, Charter Housing, Cymdeithas Tai Sir Fynwy a'r Ganolfan Byd Gwaith i ddod â'r ysgol i'r ddinas.

Gallwch weld beth oedd barn rhai a gymerodd ran am y digwyddiad, a dysgu am rai o'u busnesau a syniadau mentrus ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gael gwybod mwy am yr amrywiaeth o gymorth a chyngor sydd ar gael gan dîm gwasanaethau busnes y cyngor yn team at **www.newportgov.uk/cybusiness**

GWOBRAU I YSGOLION RHAGOROL CASNEWYDD

Mae Ysgol Gynradd y Maendy ac Ysgol Gymraeg Ifor Hael wedi cael eu cydnabod am eu rhagoriaeth gan Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Gwnaeth y gwobrau gydnabod 28 o ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill yng Nghymru y dyfarnwyd eu bod yn rhagorol yn un neu'r ddau ddyfarniad cyffredinol, am berfformiad presennol a rhagolygon ar gyfer gwella yn y flwyddyn academaidd 2015-2016.

Cafodd cynrychiolwyr o'r ysgolion dystysgrif a'u llongyfarch gan Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Estyn a Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Dywedodd Meilyr Rowlands:

"Mae dathlu'r rhagoriaeth a gyflawnwyd drwy waith caled ac ymrwymiad o fewn addysg Cymru yn bwysig"

AILWAMPIO LLYFRGELL

Bydd ymwelwyr â Llyfrgell Tŷ-Du yn sylwi ar wahaniaeth i du mewn yr adeilad yn dilyn rhaglen adnewyddu pythefnos o hyd.

Mae'r cynllun wedi newid er mwyn rhoi amgylchedd gwell i ymwelwyr yn y llyfrgell fenthyca, un o'r rhai mwyaf poblogaidd yng Nghasnewydd.

Bydd hefyd mwy o le i ddarllenwyr ifanc i fwynhau digwyddiadau yn dilyn y gwaith a wnaed ar ran Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Dinas Casnewydd.

Tra roedd y gwaith yn mynd rhagddo roedd defnyddwyr yn ymweld â llyfrgell Tŷ Tredegar a wnaeth ymestyn ei horiau i ddarparu ar gyfer defnyddwyr ychwanegol.

GWELLA LLWYBRAU BEICIO A CHERDDED

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gwella'r llwybrau beicio a cherdded ar draws y ddinas yn raddol fel rhan o'i ymrwymiad i sicrhau bod mwy o bobl yn byw bywydau iach drwy ddefnyddio dulliau teithio llesol.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai o amgylch y ddinas i gael adborth gan drigolion ar y map rhwydwaith integredig a gaiff ei ddefnyddio i baratoi ein cynlluniau teithio llesol ar gyfer y 15 mlynedd nesaf.

Hyd yn hyn mae'r cyngor, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, wedi cwblhau cyfres o brosiectau yn cynnwys rhan o Wastadeddau Gwent ar yr adran 6km o lwybr beicio 'rhyngddinasol' rhwng Casnewydd a Chaerdydd.

Llwybr oddi ar y ffordd ar gyfer cerdded a beicio yn cysylltu'r M4 a'r Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol drwy'r hen ffordd gwaith dur, gan fynd â defnyddwyr bron at y ffin â Sir Fynwy gyda chynlluniau i ymestyn yn y dyfodol.

Ac ym mis Mawrth dyrannwyd dros £1 miliwn er mwyn helpu i barhau â'r gwaith ar y cynllun coridor gogleddol, parhad o'r gwaith a ddechreuodd yn 2015 fel rhan o raglen dair blynedd.

Bydd y gwelliannau teithio llesol yn cysylltu ardaloedd megis Pilton Vale ym Malpas, Betws a Brynglas ac ardaloedd preswyl yn y ddinas megis Crindau, Shaftesbury a Barrack Hill â chanol y ddinas drwy gysylltiadau ac estyniadau i lwybrau 49, 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a llwybrau sefydledig eraill.

Caiff yr arian a ddyrennir ei ddefnyddio i ymestyn a gwella'r rhwydwaith o'r rhwydwaith oddi ar y ffordd 'cylchol canol y ddinas' sydd wedi'i gwblhau a'r llwybrau gogleddol.

Bydd hyn yn cynnwys llwybrau a nodwyd drwy ddatblygiad y map rhwydwaith teithio llesol, y mae angen eu gwella er mwyn cyrraedd safon teithio llesol.

RHYBUDD TIPIO ANGHYFREITHLON

Caiff pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon eu dal a'u herlyn

Cyngor Dinas Casnewydd yn rhybuddio y dylai preswylwyr sicrhau eu bod yn talu gweithredwyr trwyddedig i fynd â sbwriel ymaith.

Gallech wynebu cael eich erlyn drwy'r llys os bydd y person rydych yn rhoi eich gwastraff iddo yna yn ei dipio'n anghyfreithlon.

Digwyddodd hyn i breswylydd a ddefnyddiodd 'ddyn fan' a wnaeth dipio'r sbwriel. Aeth staff yn y tîm Balchder yng Nghasnewydd drwy'r sbwriel i ddod o hyd i dystiolaeth a'u galluogodd i ddod o hyd i'r preswylydd. Ar ôl yr achos llys bu'n rhaid iddo dalu gordal dioddefwr a chostau i Gyngor Dinas Casnewydd sef cyfanswm o bron i £600.

Daeth y tîm hefyd â thystiolaeth i'r llys yn llwyddiannus a wnaeth arwain at roi dirwy o £1,000 i rywun a wnaeth dipio'n anghyfreithlon yn ogystal â gordal dioddefwr o £30 a chostau o £175.

Roedd yr heddlu yn dystion i'r digwyddiad a gwelwyd y troseddwr yn tipio sbwriel mewn cilfan oddi ar Heidenheim Drive, Casnewydd ym mis Gorffennaf y llynedd.

Os bydd unrhyw un yn dyst i bobl yn tipio'n anghyfreithlon gellir gadael manylion ar rif llinell gymorth Balchder yng Nghasnewydd 07973 698582 a bydd y tîm yn ymchwilio ac yn erlyn y troseddwyr.

PRIDE IN NEWPORT
BALCHDER YNG NGHASNEWYDD

CASGLIADAU GŴYL Y BANC

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn casglu sbwriel a gwastraff gardd ar y diwrnodau arferol yn yr wythnos sy'n dechrau dydd Llun 29 Mai.

Yn draddodiadol, bydd y casgliadau ddiwrnod yn hwyrach na'r arfer yn dilyn gŵyl y banc. Fodd bynnag, y tro hwn ni fydd gŵyl y banc y gwanwyn eleni yn effeithio ar gasgliadau.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.newport.gov.uk/recycling**

BINIAU 'BIG BELLY' YN BWYTA MWY O SBWRIEL

Ydych chi wedi gweld y biniau 'Bigbelly' o amgylch y ddinas?

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi treialu'r broses o ddefnyddio'r unedau sy'n cael eu pweru gan yr haul sy'n cywasgu sbwriel fel y gallant ddal hyd at wyth gwaith yn fwy o sbwriel na bin arferol, gan greu e-bost i ddweud wrth staff ei fod yn llawn.

Caiff data eu dadansoddi bellach i weld a yw'r biniau yn gosteffeithiol.

ANFON GWERTHWR BYRDDAU HOFRAN I'R CARCHAR

Cafodd dyn a werthodd fwrdd hofran a aeth ar dân ddedfryd o garchar yn dilyn ymchwiliad llwyddiannus gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Ym mis Tachwedd 2015 prynodd defnyddiwr dri bwrdd hofran o siop eBay fel anrhegion Nadolig ar gyfer ei phlant.

Ar ddydd Nadolig 2015 dechreuodd un o'r byrddau hofran fygu ar ôl cyfnod o gael ei wefru. Yn lwcus, aeth y defnyddiwr ag ef y tu allan ar unwaith lle aeth ar dân a ffrwydro.

Cysylltodd y defnyddiwr â thîm safonau masnach Cyngor Dinas Casnewydd a ymchwiliodd i'r mater. Datgelodd archwiliad o wefrwyr y byrddau hofran gan beiriannydd trydanol arbenigol eu bod wedi methu sawl agwedd ar reoliadau diogelwch trydanol.

Er bod y diffynnydd yn mynnu na allai ddweud gan bwy roedd wedi prynu'r byrddau hofran gan honni nad oedd yn fasnachwr, profodd ymchwiliad y cyngor fel arall.

Mae ymgyrch Casnewydd Ddi-dwyll yn ymwneud â thargedu eitemau anniogel o'r fath ac mae'r achos hwn yn enghraifft anffodus o ba mor beryglus y gall nwyddau sydd wedi'u disgrifio'n anwir fod.

Am ragor o wybodaeth am Casnewydd Ddi-dwyll a phwy i gysylltu ag ef ynglŷn â gwerthu nwyddau a gwasanaethau ffug, ewch i **www.newport.gov.uk/fakefree**

FAKE FREE NEWPORT CASNEWYDD
RHYDD RHAG FFUG

CYNLLUN BLAENLLAW AR GYFER OEDOLION AG ANABLEDDAU DYSGU

Tŷ Eirlys

Mae preswylwyr wedi symud i mewn i ddatblygiad iechyd, tai a chymorth ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yng Nghasnewydd.

Mae Tŷ Eirlys yn arwain y ffordd yng Nghymru, gan ddarparu llwybr angenrheidiol rhwng byw gyda chymorth a byw'n annibynnol.

Dyma ganlyniad cydweithrediad llwyddiannus rhwng y darparwr gofal yng Nghasnewydd, Reach, Charter Housing (y ddau yn rhan o Pobl Group), Cyngor Dinas Casnewydd, Llywodraeth Cymru a'r adeiladwyr lleol Willis Construction.

Mae Tŷ Eirlys yn enghraifft o waith ailfodelu sylweddol ar lety gyda chymorth ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ac mae'n wahanol i'r ddarpariaeth draddodiadol o gartrefi grŵp bach.

Mae'r llety pwrpasol o'r safon fodern uchaf ac mae'n darparu 13 o fflatiau unigol ar gyfer pobl sy'n cael eu hatgyfeirio drwy Gofrestr Tai Cyffredin y cyngor.

Mae'r llety arbenigol o arddull oes Fictoria wedi'i leoli yn ardal Stow Hill, Casnewydd ac mae wedi cael ei gynllunio ar gyfer anghenion unigolion nawr ac yn y dyfodol. Mae wedi'i gynllunio er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol gan fanteisio ar becynnau cymorth wedi'i deilwra os bydd angen.

MWY O HELP AR GYFER MAMAU

Mae gwasanaeth newydd yn cefnogi mamau sydd mewn perygl y bydd eu plant yn cael eu rhoi mewn gofal.

Mae Reflect yn cynnig help un-i-un ar gyfer merched y mae un neu fwy o'u plant eisoes wedi cael eu cymryd oddi wrthynt ac yn rhoi'r cymorth dwys sydd ei angen arnynt i wella eu bywydau a thorri cylch achosion gofal.

Byddant yn cael cynnig cymorth emosiynol ynghyd â help ymarferol gan gynnwys cyngor atal cenhedlu a mynediad at wasanaethau tai, addysg a chyflogaeth.

Mae Casnewydd, yn ogystal â Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chaerffili yn gweithio gyda Barnardo's Cymru i ddarparu'r prosiect.

Dywedodd Liz Baker, cyfarwyddwr cynorthwyol Barnardo's Cymru ar gyfer gwasanaethau plant yn ne-ddwyrain Cymru *"Mae'n ymwneud â merched yn deall eu gorffennol, yn goresgyn y problemau yn eu bywydau presennol a chyflawni dyfodol gwell drwy drawsnewid eu bywydau."*

Y gobaith yw y bydd y prosiect, sydd hefyd wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru, yn lleihau'r costau emosiynol, cymdeithasol ac ariannol sy'n gysylltiedig â rhoi plant mewn gofal.

GWEDDNEWID BUSNESAU CANOL Y DDINAS

Mae dwy dafarn a rhes o fwytai a siopau gyferbyn â Mariner's Green yn cael dipyn o sylw ar ôl cael eu hailwampio trwy raglen dan arweiniad y cyngor.

Ers tair blynedd, mae rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi rhoi hwb i nifer o adeiladau pwysig yng nghanol y ddinas.

O'r Stryd Fawr i Cardiff Road, mae eiddo allweddol wedi cael eu trawsnewid yn gartrefi, busnesau a lleoedd modern newydd.

Yn fwy diweddar, mae'r sgaffaldiau wedi dod i lawr o eiddo ar Heol Commercial gan gynnwys The Alma Inn, i'w datgelu wedi'u hadfer i'w hysblander gwreiddiol.

Mae nifer o fusnesau newydd wedi cael eu sefydlu yn y rhan honno o ganol y ddinas ers i'r rhaglen adfywio fynd rhagddi gan gynnwys Nassa Travel yn yr Adeiladau Cenedlaethol a gafodd fudd o'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Cafodd Nassa Travel gymhorthdal ar gyfer siop hefyd gan gronfa a sefydlwyd gan y cyngor i helpu mentrau newydd.

Busnes newydd arall sydd eisoes yn llwyddiant mawr gydag ymwelwyr â chanol y ddinas yw'r bwyty danteithion Kaspa's ar Stryd Commercial. Mae wedi adfywio hen siop ddillad a oedd wedi bod yn wag ers peth amser a chafodd help gan y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid hefyd.

BUDDSODDIAD PELLACH AR GYFER MEYSYDD BLAENORIAETH ALLWEDDOL

Yn ddiweddar cymeradwyodd cabinet Cyngor Dinas Casnewydd wariant ychwanegol o £2.5 miliwn i gefnogi naw maes gwaith allweddol.

Mewn hwb ychwanegol i ysgol, mae £1.1 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i gronfa adnewyddu a chaiff buddsoddiad refeniw o £300k mewn prosiect sy'n seiliedig ar sgiliau a gyflwynir yn y gymuned ei ddefnyddio i sicrhau arian cyfatebol gan ei gynyddu i tua hanner miliwn.

Caiff £300k ei ychwanegu at y gyllideb streetscene ar gyfer prosiectau gan gynnwys glanhau a gwella tanlwybrau a thorri gwair ychwanegol.

Bydd arian hefyd yn mynd tuag at gefnogi masnachwyr yn y farchnad dan do, y llyfrgell a gwasanaethau amgueddfa, cyfleusterau chwarae, cynnal grantiau i'r sector gwirfoddol, darparu grantiau cyfleusterau i bobl anabl a mentrau yn targedu y mddygiad gwrthgymdeithasol.

Ar ôl edrych yn fanwl drwy gyllid y cyngor nodwyd arian ychwanegol o danwariant rhagamcanol, arbedion a gyflawnwyd drwy fabwysiadu dull darparu isafswm refeniw newydd ac arian a rhyddhawyd o gronfeydd wrth gefn yn dilyn adolygiad o gynllun lleihau'r dreth gyngor a'r gronfa wrth gefn ar gyfer hawliadau cyfreithiol cyffredinol.

NEWIDIADAU I GEISIADAU MEITHRIN

Mae'r broses o wneud cais am le meithrin yng Nghasnewydd ar fin cael ei symleiddio.

Ar gyfer lleoedd meithrin yn ysgolion Casnewydd yn 2018, mae'r broses gwneud cais a'r amserlen yn newid gyda'r nod o wneud y broses yn haws i rieni.

Mae plant yn gymwys i gael lle meithrin yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yng Nghasnewydd gall hyn fod mewn dosbarth meithrin/ysgol a gynhelir, neu mewn lleoliad nas cynhelir (cylch chwarae neu feithrinfa ddydd breifat).

Ar gyfer lle meithrin ym mis Medi 2018 (meithrinfeydd a gynhelir yn unig), gellir gwneud ceisiadau rhwng 3 Gorffennaf a 18 Medi 2017.

Fodd bynnag, mewn newid i flynyddoedd blaenorol, nid oes angen i rieni gyflwyno cais ar wahân am le ar gyfer plant sy'n troi'n 3.

Gellir cynnig lleoedd ar gyfer plant sy'n troi'n 3 i blant a anwyd rhwng 1 Medi a 31 Mawrth, gyda mis Ionawr neu Ebrill 2018 fel dyddiad dechrau meithrin.

Unwaith y bydd cais meithrin wedi'i wneud, os bydd lle ar gyfer plant sy'n troi'n 3 ar gael, rhoddir gwybod i rieni yn awtomatig bellach a byddant yn cael cynnig y lle hwnnw.

Nid yw plant a anwyd rhwng 1 Ebrill a 31 Awst yn gymwys ar gyfer lle ar gyfer plant sy'n troi'n 3.

Mae'r cyngor yn gyfrifol am dderbyniadau i ysgolion meithrin cymunedol ond i gael lle meithrin mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu leoliad nas cynhelir, dylid holi'r ysgol neu'r darparwr yn uniongyrchol.

Mae lleoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar gael.

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais ewch i **www.newport.gov.uk/schooladmissions**

DYDDIADAU ALLWEDDOL

3 Gorffennaf – 18 Medi 2017

- Cyfnod gwneud cais ar gyfer holl leoedd meithrin 2018

30 Tachwedd 2017

- Cyflwyno penderfyniadau ar gyfer lleoedd Medi 2018
- Cynnig lleoedd ar gyfer plant sy'n troi'n 3 Ionawr 2018 (os ydynt ar gael)

2 Mawrth 2018

- Cynnig lleoedd ar gyfer plant sy'n troi'n 3 Ebrill 2018 (os ydynt ar gael)

GORYMDAITH Y MAGNELWYR BRENHINOL

Nododd milwyr balch o Gatrawd 104 y Magnelwyr Brenhinol 50 mlynedd ers sefydlu'r gatrawd drwy gymryd rhan mewn Gorymdaith dros Ryddid drwy ganol dinas Casnewydd ar 1 Ebrill.

SWYDDOGION HMS SEVERN I ORYMDEITHIO DRWY GASNEWYDD

Bydd Capten a chriw HMS Severn yn cymryd rhan mewn Gorymdaith dros Ryddid drwy ganol dinas Casnewydd ddydd Sadwrn 15 Gorffennaf.

Bydd yr orymdaith yn nodi'r tro olaf i'r llong ddocio yng Nghasnewydd cyn cael ei dadgomisiynu yn hwyrach eleni.

Mae HMS Severn yn un o longau dosbarth-Afon patrôl ar y môr Llynges Frenhinol Prydain ac mae'n un o driawd sy'n hwylio'r moroedd o amgylch y DU bron bob diwrnod o'r flwyddyn.

Mae wedi bod yn gysylltiedig â Chasnewydd ers 2003 a chafodd ryddid y ddinas yn 2006.

NEWPORT MARKET
MARCHNAD CASNEWYDD

EXPLORE NEWPORT MARKET

Proud to serve you since the 1800s

High Street, Newport city centre

MWYNHAU MARCHNAD CASNEWYDD

Yn falch i'ch gwasanaethu ers y 1800au

High Street, canol dinas Casnewydd

www.newport.gov.uk/market

Newport norse Casnewydd

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

DIGWYDDIADAU

CANOL Y DDINAS
6 Mehefin
Gwasanaeth coffa D-Day wedi'i drefnu gan Gymdeithas Cymrodorion y Cymry Brenhinol, Cangen Dinas Casnewydd. Gorymdaith yn gadael Heol Cambrian am 12.45 yn dilyn gwasanaeth coffa, gan gynnwys gosod torchau, wrth y gofeb ar y Stryd Fawr.

EGLWYS GADEIRIOL CASNEWYDD
16 a 17 Mehefin
Noye's Fludde:
Opera i blant gan Benjamin Britten.
Tocynnau ar y drws neu ymlaen llaw – ffoniwch 07933627594 neu anfonwch e-bost enquiries@newportcathedral.org.uk

THEATR GLAN YR AFON
www.newportlive.co.uk/riverfront
27 Mai
Mark Thompson's Spectacular Science Show (oed 6+)
17 June
Bach to Baby: Gŵyl Machen Isaf
19-23 Mehefin
Apocalypso: Theatr Tinshed

TŶ TREDEGAR
www.nationaltrust.org.uk/tredegar-house
27-29 Mai
Penwythnos Môr-Ladron Capten Henry Morgan

GWLYPDIROEDD CASNEWYDD
www.rspb.org.uk
3 a 4 Mehefin
Penwythnos arddangos ysbienddrychau a thelesgopau

AMGUEDDFA AC ORIEL GELF CASNEWYDD
www.newport.gov.uk/heritage
17 Mehefin
Sgwrs amser cinio: Gofalu am gasgliadau amgueddfa

THEATR DOLMAN
www.dolmantheatre.co.uk
24 a 25 Mai
A Broadway Rhapsody – noson o adloniant gydag STC Musical Society
13-17 Mehefin
The Government Inspector – bydd Newport Playgoers Society yn perfformio'r ddrama ddychanol hon
18 a 19 Mehefin
Bugsy Malone – sioe gerdd llawn hwyl gan Ddosbarth Theatr Gerdd Sharon Higgins
23-25 Mehefin
West Side Story